

Cronfa Waddol Gymunedol Sir Ddinbych

Meini prawf cyllid: sefydliadau cymunedol a gwirfoddol



Nod Cronfa Waddol Gymunedol Sir Ddinbych yw ariannu mentrau addysgol. Mae'r gronfa yn chwilio am geisiadau gan y canlynol:

- Prosiectau sy'n cefnogi datblygiad addysgol plant o oedran ysgol a phobl ifanc
- Prosiectau sy'n cefnogi datblygiad addysgol plant yn y blynyddoedd cynnar
- Prosiectau sydd wedi'u lleoli mewn ysgolion sy'n cefnogi materion iechyd a ffyrdd iach o fyw
- Prosiectau cyflawni addysgol gan gynnwys dysgu gydol oes
- Prosiectau cynhwysiant addysgol gyda chymorth i fyfyrwyr unigol talentog ar ffurf ysgoloriaethau, cymorth teithio, chwaraeon, gwobrau ar gyfer cyrhaeddiad a deunyddiau addysgol

Grantiau ar gael

Gall sefydliadau wneud cais am grantiau o hyd at £1,000 y flwyddyn

Pwy all wneud cais?

Grwpiau a sefydliadau yn ardal Awdurdod Lleol Sir Dinbych sy'n rhedeg prosiectau sydd y tu allan i ddarpariaeth statudol. (E.e. clybiau ar ôl ysgol, clybiau brechwast, prosiectau garddio ac ati).

Rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr sy'n gallu dangos sut yn union y byddant yn bodloni amcanion a blaenoriaethau'r Gronfa, ac nad ydynt wedi cael cymorth gan y Gronfa hon o'r blaen.



Sut i wneud cais?

Rhaid i bob ymgeisydd gwblhau ffurflen gais sydd ar gael ar ein gwefan.

Cofiwch:

- Ni roddir grantiau'n ôl-weithredol h.y. ar gyfer costau sydd eisoes wedi codi cyn derbyn ein.
- Llythyr yn cynnig grant a chyn llofnodi a dychwelyd yr amodau a thelerau.
- Nid yw grantiau ar gael i gefnogi codi arian ar ran grwpiau ac elusennau eraill.
- Rhaid gwario'r grant yn llawn o fewn un flwyddyn o dderbyn ein llythyr o gynnig.
- Rhaid i'r cais ddangos angen clir am gymorth ariannol, caledi ariannol neu anghenion cymorth ychwanegol.

Cyllid Blwyddyn Lluosog

Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw hi i grwpiau allu cynllunio ar gyfer y dyfodol a bod cael cyllid diogel yn gallu rhoi'r hyder a'r sicrwydd i chi ddatblygu eich prosiect dros y tymor hir. Mae Cronfa Waddol Gymunedol Sir Ddinbych bellach yn cynnig cyfle i grwpiau wneud cais am gyllid aml-flwyddyn o hyd at dair blynedd ond bydd hefyd yn parhau i gynnig cyllid prosiect 1 flwyddyn neu eitem gyfalaf bach.

Rydym yn gobeithio gallu gwneud o leiaf un grant tair blynedd y flwyddyn. I gael eich ystyried am grant tair blynedd, cwblhewch adran ychwanegol y ffurflen gais sy'n nodi sut rydych yn bwriadu datblygu eich prosiect dros y cyfnod o gyllid y gwneir cais amdano. Bydd eich cais yn dal i gael ei ystyried am gyllid blwyddyn os nad ydych yn llwyddiannus gyda grant tair blynedd.

Rydym hefyd yn cydnabod yr her o ddod o hyd i gyllid craidd, yn enwedig yn y tymor hir. Gall grwpiau ymgeisio am gyllid tuag at gostau craidd am hyd at dair blynedd, ar yr amod y gall y grŵp ddarparu cyfrifon am o leiaf y 12 mis diwethaf ac mae'r swm y gwneir cais amdano yn llai na 50% o'ch trosiant blyneddol. Er enghraifft, i wneud cais am grant o £1,000 y flwyddyn, dylai eich incwm blyneddol fod o leiaf £2,000

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gofyn i sefydliadau yng Nghymru ystyried effeithiau tymor hir eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl a cymunedau a gyda'i gilydd a rhwystro problemau parhaus rhag codi, megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd.

Rydym yn awyddus i annog sefydliadau i feddwl nid yn unig am y gymuned ble maen nhw'n byw ac yn gweithio ynddi, ond hefyd sut mae'u gwaith yn gydnaws â ac yn cyd-fynd â gwasanaethau a gweithgareddau grwpiau a sefydliadau eraill, rhai gwirfoddol a rhai statudol.

Fe hoffen ni i chi ystyried sut y gallai'ch sefydliad weithio gydag eraill er mwyn ychwanegu gwerth a gweithio mewn partneriaeth yn hytrach na chystadlu. Cofiwch egluro yn eich cais eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn ogystal ag ar gyfer y presennol. Fe hoffen ni weld sut mae grwpiau'n gweld effeithiau tymor hir eu penderfyniadau er mwyn gallu gweithio gyda, ar y cyd, ag eraill.

